

Teledu, teledu!

Gofynnwch i'ch plentyn gofnodi faint mae'n gwylio teledu bob diwrnod am wythnos. Wedyn gofynnwch iddo wneud hyn.

- ◆ Cyfrifo cyfanswm yr amser gwylio am yr wythnos.
- ◆ Cyfrifo cyfartaledd yr amser gwylio am ddiwrnod (hynny yw cyfanswm yr amser gwylio wedi'i rannu â 7).

Yn lle gwylio teledu, gallech ofyn iddo/iddi gofnodi amser bwyta pryd bwyd, neu chwarae tu allan, neu unrhyw beth arall y mae'n ei wneud bob dydd. Yna cyfrifwch y cyfartaledd dyddiol.

Pedwar mewn llinell

Gwnewch grid 6 x 7.

Llenwch y grid â rhifau dan 100.

26	54	47	21	19	5	38
9	25	67	56	31	49	13
39	41	6	1	75	28	90
14	50	81	23	43	4	37
45	29	72	34	7	58	17
36	2	55	11	22	40	42


- ◆ Cymerwch dro.
- ◆ Rholiwch dri dis, neu roliwch un dis deirgwaith.
- ◆ Defnyddiwch y tri rhif i wneud rhif yn y grid.
- ◆ Gallwch adio, tynnu, lluosu neu rannu'r rhifau, e.e. os byddwch yn rholio 3, 4 a 5, gallech wneud $3 \times 4 - 5 = 7$, $54 \div 3 = 18$, $(4 + 5) \times 3 = 27$, ac yn y blaen.
- ◆ Rhowch gownter neu ddarn arian ar y rhif a wnaethoch chi.
- ◆ Y cyntaf i gael pedwar cownter mewn llinell syth sy'n ennill.

Rhigymu

Cyfansoddwch rigymau gyda'ch gilydd a fydd yn helpu eich plentyn gofio ffeithiau tablau mwy anodd, e.g. $6 \times 7 = 42$ hai! $7 \times 7 = 49$ taw! $6 \times 8 = 48$ llwyth!

Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 6

YGG Castell-nedd




Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg
eich plentyn

Targedau – Blwyddyn 6 ₁

Erbyn diwedd Blwyddyn 6, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu ...

- Gwybod yr holl dablau i 10×10 , yn enwedig i rannu, e.e. $63 \div 7 = 9$, gan gyfrifo gweddill yn gyflym.
- Lluosi a rhannu degolion â 10 neu 100 yn eu pen, e.e. 2.61×10 , $53.2 \div 100$.
- Rhoi rhifau, gan gynnwys degolion, yn nhrefn eu maint, e.e. 1.06, 0.099, 0.25, 1.67.
- Defnyddio pensil a phapur i adio a thynnu degolion, e.e. $3.91 + 8.04 + 24.56$, neu $13.3 - 1.27$.
- Defnyddio pensil a phapur i luosi a rhannu, e.e. 387×46 , 21.5×7 , $539 \div 13$, $307.6 \div 4$.
- Canslo ffracsïynau e.e. lleihau $\frac{4}{20}$ i $\frac{1}{5}$, a chyfrifo pa ffraciwn yw'r mwyaf, e.e. $\frac{7}{12}$ neu $\frac{2}{3}$.
- Cyfrifo canrannau syml cyfanrifau, e.e. 25% o £90 yw £22.50.
- Amcangyfrif onglau a defnyddio onglydd i'w mesur.
- Cyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau syml y gellir eu rhannu'n betryalau, e.e. 
- Datrys problemau geiriau ac esbonio'u dull gweithio.
- Defnyddio cyfesurynnau i blotio safle pwyntiau.
- Deall a defnyddio'r wybodaeth mewn graffiau, siartiau a thablau.

Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai plant allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 6.

Mae'n bosib bod targed yn fwy cymhleth mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant yn gwybod sut i gyfrifo symiau ar bapur ond mae angen iddynt weld hefyd pryd y byddai'n gyflymach cyfrifo yn eu pen.

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

Hoff fwydydd

- ◆ Gofynnwch i'ch plentyn beth yw cost ei hoff eitem fwyd. Gofynnwch iddo gyfrifo faint fyddai cost 7 ohonyn nhw, neu 8, neu 9.
Faint o newid fyddai o £50?
- ◆ Ailadroddwch y pŵs gyda'r bwyd mae'n ei hoffi leiaf. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cost y ddau?

Sêl y ganrif

- ◆ Pan fyddwch yn siopa, neu'n gweld sêl mewn siop, gofynnwch i'ch plentyn gyfrifo beth fyddai cost rhai eitemau wrth dynnu :
 - 50%
 - 25%
 - 10%
 - 5%
- ◆ Gofynnwch i'ch plentyn esbonio'i ddull cyfrifo.